



Parc Bwyd Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA14 6SX

01269 846080 www.chfoods.co.uk

O ddechreuad ar fferm Castell Howell yn 1988, mae Cwmni Bwydydd Castell Howell wedi tyfu i fod yn gyfanwerthwr bwyd annibynnol mwyaf blaenllaw Cymru, gan wasanaethu ar hyd a lled y wlad, y Gororau a De-Orllewin Lloegr.

Rydym yn hynod falch o'n gwreiddiau gwledig, a dyna pam fod cyflenwi a hyrwyddo cynnyrch rhanbarthol yn un o'n gwerthoedd craidd. Y llynedd, prynwyd gwerth dros £10,000,000 o gynnyrch rhanbarthol wrth gyflenwyr a chynhyrchwyr Cymreig.

Mae ein canolfan brosesu cig 34,000 troedfedd sgwâr yn Cross Hands yn gartref i bartneriaeth Cig Eidion Celtic Pride, ein menter cadwyn gyflenwi, sy'n dathlu ei 14eg ben-blwydd eleni. Ers ei sefydlu, mae'r aelodaeth o gynhyrchwyr wedi tyfu i fod yn fwy na 50 o ffermwyr sy'n dilyn protocolau amaethu a rheoli trwyadl.

Wrth deall anghenion cwsmeriaid a gofynion y diwydiant, rydym wedi buddsoddi yng ngweithgynhyrchu ein hystod ein hunain o gynnyrch, gan gynnwys pasteiod blasus, cacennau, llenwadau brechdanau a chigoedd wedi'u coginio. Mae ein ehangiad diweddaraf wedi cynnwys sefydlu is-adran pysgod ffres sy'n medru darparu y pysgod mwyaf ffres sydd ar gael o gwmpas Ynysoedd Prydain i'r bwrdd o fewn 12 awr.

Gwelodd y gwanwyn hwn gwblhad ein estyniad 40,000 troedfedd sgwâr, sydd wedi dyblu y gofod weithio yn ein pencadlys yn Cross Hands. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu cadw hyd yn oed yn fwy o amrywiaeth o gynnyrch amrywiol i weddu i anghenion newidiol y diwydiant.

Er mwyn datblygu gwerthiant i'r sectorau cyhoeddus a phreifat, rydym wedi buddsoddi yn ein systemau ansawdd gan gyrraedd y safonau rhyngwladol canlynol: Safon BRC Byd-eang ar gyfer Diogelwch Bwyd, rhifyn 7 (Gradd A ar gyfer pob safle cynhyrchu); Safon BRC Byd-eang am Storio a Dosbarthu, rhifyn 3 (Gradd AA); Safon Ansawdd ISO 9001: 2008; Safon Amgylcheddol ISO 14001:2004.; Safon Iechyd a Diogelwch OHSAS 18001: 2007. Rydym hefyd yn cael ein harchwilio yn annibynnol yn erbyn y safon olrhain fwyd PGI.

Rydym yn cydnabod ein hymrwymiad i'r amgylchedd, gan gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Ni oedd un o'r cwmnïau cyntaf yng Nghymru i lofnodi Ymrwymiad Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd WRAP i leihau gwastraff bwyd a deunydd pacio. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi ymwymo i 'Ymrwymiad Courtauld 2025' sydd yn gytundeb deng mlynedd gwirfoddol sy'n dod â sefydliadau ar draws y diwydiant bwyd at eu gilydd. Rydym yn falch i hyrwyddo ein camau gweithredu cynaliadwy, yn rhai cymdeithasol ac economaidd, yn rheolaidd i gyflenwyr a chwsmeriaid . Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Gyda dros 600 o weithwyr, mae ein nod bob amser wedi bod i gynnig 'Y Ddarpariaeth Arlwyo Cyflawn' ac rydym yn teimlo bod ein hystod gynnyrch o dros 10,000 o linellau ac ein gwasanaeth yn ein galluogi i gwrdd a'r nod uchel hyn. Mae ein system archebu ar-lein syml ac effeithiol yn rhoi mynediad rhwydd, rheolaeth a chyfoeth o wybodaeth cynnyrch i'n cwsmeriaid. Mae gennym dîm o dros 40 Rheolwyr Gwerthiant Ardal, sy'n ymroddedig i ddarparu gofynion y cwsmer. Mae ein tîm o dros 30 o weithwyr Telewerthu yn cynnig gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog ac yn bob amser dimond un galwad ffôn i ffwrdd.

Yn fwy na dim, rydym yn gwmni lleol sy'n deall pwysigrwydd twf a chefnogaeth barhaus. Rydym yn hyderus y gallwn gwrdd a rhagori ar ddisgwyliadau gyda chynhyrchion o ansawdd, prisiau cystadleuol, gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol ac rydym yn ymrwymedig i'r addewidion a wnawn.

